# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 26AIN MAI, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Caernarfon**
**Gwynedd LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd:18/05/16)

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

**AELODAETHP (18)**

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
E. Selwyn Griffiths
Sian Wyn Hughes
Ann Williams
R. H. Wyn Williams
Aled Ll. Evans
Christopher Hughes
Elin Walker Jones
R. Hefin Williams
Gareth A. Roberts

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd
Peter Read

### Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

### Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Linda Ann Jones

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Rhian Roberts | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Dwyfor |
| Canon Parchedig Robert Townsend | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Rita Price | Yr Eglwys Gatholig |

**Heb Bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Neil Foden | Undeb Athrawon |
| David Healy | Undeb Athrawon |

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2016/17.

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION — 6 - 13

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2016.

## 7. ADRODDIAD CYNNYDD - YMCHWILIAD CRAFFU ALLTWEN — 14 - 18

**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd W. Gareth Roberts**

I dderbyn adroddiad cynnydd ar Ymchwiliad Craffu Alltwen.

10.00 – 10.15 a.m.

## 8. YMCHWILIAD CRAFFU ADDYSG GYMRAEG — 19 - 22

***Aelod Cabinet: Y Cyng. Gareth Thomas***

I ystyried adroddiad cynnydd gan Aelod Cabinet Addysg ar yr uchod.

10.15 – 11.00 a.m.

## 9. <u>POLISI CLUDIANT:  ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT</u> I ddilyn

***Aelod Cabinet:  Y Cyng.  W. Gareth Roberts***

I ystyried adroddiad gan Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ar yr uchod.

(Copi i ddilyn)

11.00 – 11.45 a.m.

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 17/03/16

**Yn bresennol**:

**Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Wyn Hughes, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones (ex-officio), Gareth A. Roberts, Ann Williams, Eirwyn Williams, Hefin Williams ac R H Wyn Williams.

**Swyddogion:** Gareth James (Rheolwr Aelodau Cefnogi a Chraffu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn bresennol:**

**Ar gyfer Eitem 3 isod:**
Y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Addysg
Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
Elfyn Vaughan Jones, Uwch Ymgynghorydd Her GwE
Garem Jackson, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg
Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg
Gwern ap Rhisiart, Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Addysg

**Ar gyfer Eitemau 4 isod:**
Y Cynghorydd W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd
Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Aled Davies, Pennaeth Dros Dro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Ffion Johnstone, Prif Swyddog Bwrdd Iechyd Gwynedd a Môn

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Evans, Dewi Owen, Eryl Jones-Williams, Linda Ann Wyn Jones, Sion Wyn Jones a Peter Read.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2016.

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH ADDYSG

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Addysg yn amlinellu perfformiad y Gwasanaeth Addysg yn ystod y flwyddyn gan nodi cryfderau a gwendidau y mae'r Gwasanaeth wedi eu hadnabod y mae angen rhoi sylw iddynt

(a) Nododd yr Aelod Cabinet Addysg bod y Gwasanaeth Addysg wedi profi cyfnod ansefydlog gyda nifer o swyddi allweddol yn wag cyn penodiad y Pennaeth Addysg i'w swydd ac ymfalchïwyd bod y Gwasanaeth wedi ei adfer erbyn hyn. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu gymryd sylw o'r elfennau isod wrth gymharu perfformiad Gwynedd o safbwynt y dangosydd TL2+ gydag awdurdodau eraill:

- Bod ysgolion Gwynedd yn llawer mwy cynhwysol
- Bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yng Ngwynedd

Yn ogystal, tynnwyd sylw'r Aelodau at y pwyntiau canlynol:

- Mai arweinyddiaeth dda sy'n gwella ysgolion
- Bod gwaith yn mynd rhagddo i weddnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Llwyddiant y Siarter Iaith drwy ledaenu'r defnydd nid yn unig drwy Ogledd Cymru ond ar draws Cymru gyfan

(b) Gosododd y Pennaeth Addysg gyd-destun yr adroddiad o dan dri phennawd sef safonau, darpariaeth ac ansawdd arweinyddiaeth. Nodwyd bod yr adroddiad wedi adnabod materion sydd angen sylw a fydd yn cael eu bwydo i'r cynlluniau busnes 2016/17 ac ymhen blwyddyn o amser hyderir y gellir dangos cynnydd.

Tynnwyd sylw bod ESTYN yn adolygu fframwaith newydd o arolygu ar gyfer pob sector ac y byddai'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion (GwE) yn derbyn arolwg yn fuan.

(c) Derbyniwyd cyflwyniad byr ar lafar fel a ganlyn:

**A. Gan Uwch Ymgynghorydd Her GwE**

Adroddwyd ar brif negeseuon o'r data perfformiad ysgolion gan nodi bod y perfformiad yn gadarn ar draws pob Cyfnod Allweddol a bod y cynnydd treigl o 2013 – 2015 yn rhan fwyaf y meysydd yn fwy na chynnydd treigl cenedlaethol. Mewn cymhariaeth a'r 22 awdurdod drwy Gymru nodwyd bod proffil Gwynedd yn dda iawn o safbwynt CA3, yn lled gadarn yn CA2 a bod lle i wella yn y Cyfnod Sylfaen. O safbwynt y rhaglen waith ar gyfer y Cyfnodau Allweddol uchod bod angen:

- Parhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau bod y ganran lle mae perfformiad yn yr hanner cant isaf o fewn y teulu cinio am ddim yn cael ei leihau
- Parhau i weithio gydag ysgolion mewn perthynas â dibynadwyedd a grymuster asesiadau athrawon
- Gwella a grymuso ansawdd y cynllunio a'r ddarpariaeth yn CA2 a'r Cyfnod Sylfaen

O safbwynt Cyfnod Allweddol 4, nodwyd bod y perfformiad yn eithaf cadarn ac yn broffil i ymfalchïo ynddo sef bod Gwynedd mewn cymhariaeth a'r 22 awdurdod ar draws Cymru yn y safle 1af yn TL1, 3ydd safle o safbwynt dangosydd y pynciau craidd a 5ed yn ddangosyddion TL2 a TL2+.

Atgoffwyd yr Aelodau bod perfformiad nifer o ysgolion wedi bod yn pendilio ac yn dilyn gwaith penodol gyda rhain braf ydoedd nodi bod cynnydd sylweddol mewn nifer o'r ysgolion wedi ei gyflawni a chynnydd pellach i'w wneud.

O safbwynt perfformiad yng nghyd-destun arolygiadau ESTYN sydd ychydig mwy pryderus, nodwyd bod 18 o ysgolion wedi eu harolygu gyda 3 ohonynt wedi eu gosod mewn categori statudol. Ym marn yr Uwch Ymgynghorydd Her roedd hon yn broffil

anfoddhaol ac fe gymerwyd llawer o gamau i unioni'r sefyllfa ac erbyn hyn mae'r sefyllfa yn llawer iawn mwy cadarnhaol.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau gwestiynu cynnwys yr uchod ac fe ymatebodd y swyddogion perthnasol iddynt fel a ganlyn:

(i) Bod arolygwyr yn edrych ar safonau dros gyfnod o amser, pa mor dda yw'r ddarpariaeth addysgu, cwricwlwm yr ysgol, pa mor dda yw'r arweinyddiaeth. Fe osodir ysgol mewn mesurau arbennig os yw yn perfformio yn gyson isel dros gyfnod o dair blynedd a bod yr Arolygwyr wedi gweld ansawdd canran o'r gwersi yn ddigonol neu anfoddhaol. Os nad yw ysgol wedi adnabod ei gwendidau / cryfderau ac yn symud ddigon cyflym i wella, fe'i gosodir mewn mesurau arbennig.

(ii) O safbwynt y gwahaniaeth yn safonau'r dysgwyr a'r pendilio ym mherfformiad rhai ysgolion, rhaid cofio bod pob plentyn yn wahanol ac y gall un / ddau blentyn wneud gwahaniaeth i'r dangosyddion perfformiad. Os yw'r dysgu yn gyson dda nodwyd bod disgyblion yn gwneud y gorau y gallent ac yn cyrraedd y safonau disgwyliedig.

(iii) Yng nghyd-destun cydweithio rhwng y cynradd a'r uwchradd, cydnabuwyd bod y mater ar raglen y Gwasanaeth Addysg ers sawl blwyddyn. Tra'n derbyn bod lle i wella'r cyfathrebu a dealltwriaeth o'r gofynion, nodwyd bod GwE wedi rhannu ysgolion i hyrwyddo cydweithio ysgol i ysgol er mwyn rhannu arferion da. Hyderir y gellir gweld ffrwyth y cydweithio yn ystod tymor yr haf. Yn ogystal, drwy sefydlu'r model ysgolion dilynol o 3 - 16 oed hyderir y bydd y math yma o batrwm yn cryfhau'r cydweithio.

(iv) O safbwynt siom bod Gwynedd yn safle 17eg ym mhrofion darllen Cymraeg, cydnabuwyd bod yn rhaid rhoi ystyriaeth bellach i hyn ond rhaid cofio bod polisi iaith Gwynedd yn gynhwysol yn y sector cynradd ac yn enwedig mewn cymhariaeth ag awdurdodau eraill. Sicrhawyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gydag ESTYN ynglŷn â chasglu a dehongli'r data hwn a sut maent yn dod i'r farn ar ysgolion sy'n hyrwyddo'r ddwy iaith.

(v) Ynglŷn ag arwyddocâd y categorïau ac yn benodol yr ysgolion hynny a ddyfarnwyd yn rhagorol gan ESTYN ond eto yn cael ei monitro gan yr awdurdod, esboniwyd mai'r elfen sydd angen ei wella ydoedd presenoldeb yn y sector cynradd. Nodwyd ymhellach fel Sir bod angen gwella presenoldeb.

(vi) Byddai'n fuddiol i aelodau'r Ymchwiliad Craffu Gwasanaeth Cefnogol Addysg drafod gydag ysgolion sydd wedi eu dyfarnu yn goch y math o gefnogaeth a dderbynnir gan Wasanaeth Cefnogol Addysg a GwE.

(vii) Yn dilyn gwaith a gyflawnwyd gan yr Ymchwiliad Ansawdd Addysg, ymddengys bod y bwlch rhwng perfformiad CA3 a CA4 yn parhau yn anferthol. Mewn ymateb, esboniwyd ei bod yn fwyfwy amlwg dros y blynyddoedd nad lefel 5 yn CA3 yw gwir ddangosydd y perfformiad pan mae dysgwyr yn cwblhau addysg ar ddiwedd CA4 ond yn hytrach mai lefel uwch yn CA3 sydd fwyaf arwyddocaol mewn perfformiad.

(viii) Gwnaed sylw y dylai'r iaith Gymraeg fod yn gryfach. Mewn ymateb, cydnabuwyd bod angen gosod y nod drwy'r amser er mwyn i'r disgyblion fod yn ddwyieithog fel eu bod yn cael eu haddysgu i safon i fedru gweithio'n lleol a bod arddel y Gymraeg yn her nid yn unig i addysg ond hefyd yn gymdeithasol.

(ix) O safbwynt pryder pellach ynglŷn â chynnal yr iaith Gymraeg yn y sector uwchradd yn dilyn gwaith da wneir yn y sector cynradd yn sgil y Siarter Iaith, bod bwriad i ehangu'r Siarter i'r sector uwchradd. Yn ychwanegol bod arbenigwr allanol yn ymgymryd â gwaith ymchwil pellach ac fe fyddir yn ddiddorol i'r Pwyllgor Craffu hwn weld deilliant y gwaith hwnnw i graffu'r amrywiaeth o fewn ysgolion.

(x) Nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad ynglŷn â'r newid yn y cwricwlwm a'r heriau a wynebai ysgolion yn hyn o beth. Mewn ymateb, eglurwyd bod manylebau CA4 yn y Gymraeg / Saesneg / Mathemateg yn cael eu cyflwyno. Adnabuwyd ysgolion

arweiniol ar draws y rhanbarth i ddatblygu ar i arwain a chynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddiant ac ystod o weithdai i'w cefnogi. O safbwynt adroddiad Yr Athro Donaldson ar gyfer oddeutu 2020, nodwyd bod rhaglen genedlaethol yn mynd rhagddo i adnabod ysgolion arweiniol cenedlaethol ac o 2017 ymlaen fe fydd yr ysgolion hynny yn gweithio mewn dalgylchoedd i roi arweiniad i weddill yr ysgolion.

(xi) Ynglyn a sut fydd y toriadau ariannol yn amharu ar hyfforddiant i athrawon yn enwedig i'r ysgolion sydd yn tangyflawni, eglurwyd y byddai'n rhaid bod yn greadigol drwy gydweithio hefo GwE o safbwynt beth sydd angen, ystyried dulliau mwy cydweithredol, rhannu adnoddau / arbenigedd yn ogystal ag osgoi dyblygu.

(xii) Esboniwyd bod y dangosydd cinio am ddim wedi bod yn eitha' cyson.

Aeth yr Uwch Ymgynghorydd Her GwE ymlaen i nodi bod perthynas waith da yn bodoli rhwng yr awdurdod a GwE ac wedi ei grymuso lle mae llif gwybodaeth yn rhedeg yn llyfn sydd yn caniatáu bod Gwe a'r awdurdod yn gallu ymyrryd ynghynt.

Cyfeiriwyd at y model newydd mewn perthynas â chategoreiddio cefnogaeth i ysgolion yn seiliedig ar liw. Eglurwyd bod ysgolion yn y categorïau gwyrdd yn cael eu grwpio hefo'i gilydd lle gellir rhoi mwy o annibyniaeth iddynt i fraenaru a defnyddio eu harbenigedd. Rhydd hyn gapasiti i fedru gweithio mwy dwys hefo'r ysgolion yn y categorïau melyngoch a choch. Byddir mewn sefyllfa i adrodd yn fwy aeddfed ar ddatblygiad y model hwn flwyddyn nesaf.

Tynnwyd sylw at y drefn ganolog o gasglu targedau er mwyn ymyrryd ynghynt a'r bwriad i benodi Ymgynghorwyr Her i ddatblygu perfformiad yn Saesneg a Mathemateg. Fe fyddir yn cyd-gyllido gyda'r awdurdod rôl yr Ymgynghorydd Mathemateg fydd yn benodol yn gweithio yng Ngwynedd.

Cyflwynwyd ystod o raglenni i wella ansawdd arweinyddiaeth ynghyd a rhaglen i wella arweinyddiaeth ganol.

Mewn ymateb i gwestiynau, nododd y swyddogion fel a ganlyn:

(i) Y byddir yn ceisio newid Ymgynghorwyr Her Cyswllt pob 2/3 blynedd.

(ii) O safbwynt y nifer sy'n ymgymryd â chymhwyster CPCP, esboniwyd bod gan GwE raglen arweinyddiaeth gynhwysfawr lle fyddent yn trafod gyda'r awdurdod pa gefnogaeth mae ysgolion angen a phwy yw darpar arweinwyr y dyfodol. Yn ogystal nodwyd yr angen i dargedu unigolion i fynychu cyrsiau addas.

(iii) Yng nghyd-destun penodi Penaethiaid, esboniwyd bod yr awdurdod yn gweithio ar y cyd gyda llywodraethwyr gan fod gan yr awdurdod adnabyddiaeth dda o botensial unigolion.

**B. Gan y Swyddog Gwella Ansawdd**

Nodwyd y comisiynwyd adroddiad ar faes arweinyddiaeth sydd i'w chyflwyno i'r Cabinet maes o law. Tynnwyd sylw at y prif ganfyddiadau isod a ddeilliwyd o gyfweliadau gyda nifer o Benaethiaid ac Aelodau etholedig:

1. Bod llawer mwy o ffocws ynglŷn â phenderfyniadau a thrafodaethau diweddar ar lefel awdurdod ar arweinyddiaeth a chydnabuwyd bod angen newid arwyddocaol ym maes arweinyddiaeth
2. Ymrwymiad clir i gydweithio

3. Nad oedd y trefniadau presennol bellach yn briodol a bod angen cymryd camau i ymdrin â hyn h.y. edrych ar arweinyddiaeth a threfniadaeth oherwydd nad oeddynt yn gynaliadwy gyda barn glir gan Benaethiaid bod angen newid
4. Bod angen i'r awdurdod wella ei berfformiad i adnabod arweinwyr
5. Gostyngiad sylweddol yn nifer staff canolog yr awdurdod ac o ganlyniad bod capasiti i fodloni anghenion ysgolion yn is
6. Bod ffocws penodol i'w weld ar arweinyddiaeth yng nghynlluniau busnes yr awdurdod a GwE
7. Bod yr awdurdod wedi sefydlu Bwrdd Monitro cynnydd annibynnol i edrych pa mor gyflym mae ysgolion yn dod allan o'r categori statudol
8. Wedi adnabod problem ym mherfformiad Saesneg / Mathemateg
9. Enghreifftiau o fodelau ffederal - rhannu arweinyddion ar draws ysgolion
10. Parhau i weithio ar amodau
11. Parhau gyda'r gyfundrefn o gydweithio ysgol i ysgol
12. Sicrhau bod buddsoddiad cyfalaf ar gael i greu model swyddfa ardal
13. Datblygu rôl yr Uned Datblygu Addysg

Ymatebodd y Pennaeth Addysg a'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg i ymholiadau gan Aelodau unigol fel a ganlyn:

(i) Dymunir gweithredu'r drefn newydd ar gyfer Swyddfeydd Ardal y Gwasanaeth yn y flwyddyn academaidd nesaf
(ii) O safbwynt y niferoedd sy'n dilyn y cymhwyster CPCP, bod 20 unigolyn o fewn y rhanbarth wedi derbyn mynediad y llynedd a bod oddeutu 100 o lefydd ar gael yn genedlaethol. Eleni am y tro cyntaf gwelwyd bod y cwota wedi codi. Ychwanegwyd pe byddir yn derbyn mwy i ddilyn y cymhwyster, byddai mwy o gystadleuaeth ar gyfer y swyddi a nodwyd pwysigrwydd i unigolion ddefnyddio'r cymhwyster os ydynt yn llwyddo i'w dderbyn.

**C. Gan Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad:**

Amlinellwyd gweithrediadau a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod megis:

- Sefydlu trefn o hunan arfarnu ar draws ysgolion i'w harfogi i adnabod patrymau o ran presenoldeb ynghynt
- Trefn o erlyn a rhybuddion cosb benodol
- Bod gostyngiad yn y gwaharddiadau parhaol yn y sector uwchradd gyda chynnydd mewn gwaharddiadau parhaol yn y sector cynradd oherwydd yn bennaf diffyg cynhaliaeth ar gyfer plant hefo problemau ymddygiad. Nodwyd bod angen rhoi sylw brys i'r mater yn CA2 a CA3.
- Trefn newydd yn ei le ers dechrau Ionawr i gefnogi disgyblion sydd gydag ymddygiadau emosiynol yn CA4. Gwelwyd bod y disgyblion yn cael budd o'r pecynnau sydd wedi ei teilwro ar gyfer eu hanghenion unigol hwy
- Sefydlwyd cynllun TRAC ers Ionawr
- Penodwyd Swyddog Diogelu ar gyfer yr Adran ac wedi grymuso trefniadau diogelu / mynediad i ysgolion ynghyd â threfnu hyfforddiant pwrpasol
- Bod yr adolygiad strategol yn mynd rhagddo ar gyfer y disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac wedi bod yn modelu ar y cyd gydag Ynys Môn er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth. Nodwyd bod angen bod yn ymwybodol o anghenion plant o fewn y gyfundrefn bresennol megis sut i gefnogi plant ar y sbectrwm awtistig, plant gydag anhwylder iaith benodol ac ymddygiad.
- Gwelwyd gostyngiad bychan mewn nifer o ddisgyblion sydd ar ddatganiadau ac wedi sefydlu trefn newydd o gynlluniau datblygu unigol

- Wedi sefydlu fforymau sydd wedi rheoli'r mynediad at wasanaethau anghenion arbennig e.e. anhwylder iaith, ymddygiad, ac sydd yn rhoi mwy o ffocws ar gefnogaeth i'r disgyblion trwy'r gwasanaethau canolog

Ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

(i) Bod angen cyfarwyddo rhieni ynglŷn â pholisïau ysgolion yn benodol o safbwynt tynnu disgyblion allan o'r ysgol yn ystod tymor ysgol i fynd ar wyliau. Byddir yn cydweithio gyda' r Adran Gyfreithiol ar union eiriad y polisi, a.y.b.
(ii) Bod presenoldeb yn allweddol i feithrin agwedd pobl ifanc tuag at waith.
(iii) Tra'n derbyn bod economi Gwynedd yn ddibynnol ar dwristiaeth a rhieni ddim ond yn gallu mynd ar wyliau yn ystod y gaeaf, nodwyd pwysigrwydd i gyfleu'r neges i rieni bod presenoldeb yn hynod bwysig.
(iv) Rhagwelir y byddai Ysgol Hafod Lon newydd yn agor oddeutu mis Hydref 2016 ac y byddir yn cadw'r Uned ABC o fewn prif lif yn Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog, oherwydd prinder lle yn yr ysgol arbennig.
(v) Hyderir y byddir yn penodi cwnselydd yn y dyddiau nesaf ar gyfer tymor nesaf.
(vi) Cadarnhawyd y byddai newid sylweddol o ran darpariaeth plant awtistig fel rhan o'r adolygiad strategol anghenion dysgu ychwanegol lle byddir yn ystyried sefydlu unedau o fewn ysgolion i gefnogi'r plant yn unigol er mwyn ffocysu'r arbenigedd a chryfhau'r gwasanaeth.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol.**

**(b) Cymeradwyo:**

**(i) bod yr Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg yn gwneud pwynt penodol i drafod gydag ysgolion yn y categori coch i asesu'r math o gefnogaeth y mae'r ysgolion hynny yn cael gan yr awdurdod, GwE ac eraill**

**(ii) Bod yr elfennau Gwasanaethau Cefnogol yn cael sylw gan yr Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg yn hytrach nag yn y Pwyllgor Craffu llawn**

**(c) Oherwydd y perygl o oedi mewn adrodd ar berfformiad, gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gyflwyno adroddiad interim yn ôl i'r Pwyllgor Craffu yn yr Hydref i weld beth yw patrwm canlyniadau arholiadau'r haf.**

**(ch) Bod y Pwyllgor Craffu yn rhoi sylw penodol i Addysg Arbennig yn rhaglen waith ar gyfer flwyddyn nesaf gan ystyried ei graffu yn fuan yng nghyfarfod mis Mai.**

## 4. ADRODDIAD CYNNYDD YR YMCHWILIAD CRAFFU O'R YSBYTY I'R CARTREF – RHAN 2

Cyflwynwyd adroddiad cynnydd yn erbyn prif argymhellion yr Ymchwiliad Craffu o'r Ysbyty i'r Cartref - Rhan 2.

Gosodwyd y cefndir gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Pwyllgor graffu'r cynnwys.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(a) Mewn ymateb i sylw wnaed am brinder meddygon teulu a nyrsys yng Ngwynedd yn enwedig yn ardal Dwyfor a Meirionnydd, esboniodd Prif Swyddog Iechyd Gwynedd a

Môn bod y prinder yn broblem genedlaethol ac o ran Gogledd Cymru nodwyd bod mwy o broblem yn ardal Wrecsam. Nodwyd ymhellach bod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn arian yn y swm o £4.9m gan lywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Cychwynnol sy'n galluogi sefydlu timau amlddisgyblaethol o gwmpas y meddygon teulu fyddai'n cynnwys nyrsys, therapyddion ychwanegol, cynnig awdioleg allan i'r gymuned, yn ogystal â fferyllwyr ychwanegol. O safbwynt meddygon teulu, bod camau ar y gweill i geisio cael ieuenctid yn ôl i'w cymunedau fel rhan o gynllun "Outstanding GP Development Programme". Llwyddwyd i ddenu 5 yn ôl i'r Bwrdd Iechyd gyda dau feddyg teulu yn gweithio yng Ngwynedd - un yn Nefyn a'r llall yng Nghaernarfon. Hyderir y gellir denu mwy o ieuenctid ac y byddai'n rhoi cyfle iddynt weithio hanner amser fel meddyg teulu a'r hanner arall yn arbenigo mewn maes arbennig.

(b) Bod canmoliaeth i'r nyrs ychwanegol ym Motwnnog ynghyd âr fferyllwyr gyda phobl yn ymddiried ynddynt. Ychwanegwyd am yr angen i gydweithio gyda'r trydydd sector ac ni ddylid gweld dirywiad yn y gwasanaeth.

Mewn ymateb, nododd Prif Swyddog Iechyd Gwynedd a Môn bod perthynas dda gyda Mantell Gwynedd a thrwy arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, hyderir y gellir gweithredu cynllun "Social Prescribing" gyda'r trydydd sector.

Sicrhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod gwell dealltwriaeth rhwng y Cyngor a'r trydydd sector wedi datblygu erbyn hyn a bod yn rhaid ystyried ffurf wahanol o weithio ar y cyd. Crybwyllwyd prosiect Her Gofal sy'n gweithio hefo cymunedau a nodwyd pwysigrwydd o'r holl waith integreiddio bod y trydydd sector yn rhan allweddol o'r tîm integreiddio.

(c) Pwysigrwydd i hysbysebu a rhoi gwell dealltwriaeth yn enwedig i'r bobl hŷn o'r cynllun "Advance Nurse Practitioner".

Mewn ymateb, eglurwyd bod gwaith datblygu ar y cynllun uchod dros y 2/3 blynedd nesaf. Cydnabuwyd bod angen ei hyrwyddo ac yn enwedig i staff derbynfeydd y meddygfeydd teulu. Sicrhawyd hefyd y byddir yn darparu erthygl bwrpasol ar gyfer y wasg leol ynghyd a'r cyfryngau cymdeithasol am y Timau Aml-astianaethol. Hyderir y gellir treialu mwy nag un model lle gall nyrsys ymweld a chynnal ymweliad i gartrefi ac roedd cynllun yn cael ei dreialu ym Mhen Llŷn ers mis Ionawr. Byddir yn datblygu newyddion da

(ch) Mewn ymateb i sylw wnaed ynglŷn ag unigolyn bregus yn mynd adref o'r ysbyty at oedolyn bregus arall, sicrhawyd bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio datblygu cynllun "Discharge to assess" lle fyddir yn sicrhau bod unigolion yn cael eu hasesu o fewn diwrnod neu dda wedi iddynt ddychwelyd adref.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y dylid cydweithio fel rhan o'r broses i sicrhau bod unigolion yn derbyn gofalaeth. Nodwyd ymhellach bod recriwtio gofalwyr cartref yn peri pryder mewn rhai ardaloedd a bod angen hyrwyddo'r swydd i ddenu pobl ifanc.

(d) Gwnaed sylw efallai bod pwysau i symud unigolion allan o'r ysbytai i'w cartrefi a hynny mewn rhai achosion yn gynamserol ac oni ddylid sicrhau gwelyau iddynt mewn Ysbytai cymunedol i gryfhau cyn mynd adref.

Mewn ymateb, eglurodd y Prif Swyddog Iechyd Gwynedd a Môn bod cydweithio yn bwysig ac yn benodol gyda'r Timau Integredig i sicrhau gofalaeth i unigolion yn y cymunedau.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod angen gwneud mwy o waith ynglyn a chefnogaeth i ofalwyr di-dal.

(dd) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a threfniadau Ysbyty Alltwen, cydnabuwyd ei fod yn llwyddiant er bod gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor strwythurau llywodraethu gwahanol. Hyderir y byddir yn symud ymlaen o fewn y misoedd nesaf i ymestyn y Timau Integredig.

(e) Nododd yr Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd, bod y sefyllfa yn y maes yma yn argyfyngus yn nhermau adnoddau ariannol a dynol ac felly rhaid addasu'r ffordd o gyfarch y problemau. Cydnabuwyd bod llawer i'w gyflawni mewn ffyrdd gwahanol er mwyn cael canlyniad gwell i unigolion.

(f) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a gwelyau 'step-up – step-down' ym Mhlas Pengwaith, Llanberis a chartrefi eraill eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, bod trefniadau yn cael eu gwneud i newid natur a rhaniad daearyddol y ddarpariaeth gan nad oedd y trefniant blaenorol wedi bod yn gwbl llwyddiannus.

(ff) Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol gan gyfeirio at lythyr anfonwyd at Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Plant a Theuluoedd i fynegi pryder ynglŷn â phroblemau o ran y ddarpariaeth cartrefi nyrsio preifat a hefyd mewn recriwtio nyrsys ar eu cyfer. Hyderir y byddir yn gallu adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater gydag opsiynau i'w hystyried oddeutu mis Mai.

(g) Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach i'r cyswllt wnaed gyda Margaret Flynn (awdur adroddiad Winterbourne) ac y byddir yn trafod ymhellach ei phrofiad gyda Phencampwr Pobl Hŷn, Pencampwr Gofalwyr, Y Cynghorwyr Beth Lawton ac Angela Russell, ynghyd ag un aelod sydd wedi cael profiad personol. Awgrymwyd y dylai'r Cynghorydd Elin Walker Jones, Pencampwr Awtistig fod yn rhan o'r drafodaeth uchod.

(ng) O safbwynt cadw nyrsys, esboniwyd nad oedd y rhifau sydd yn cael eu derbyn drwy Brifysgol Bangor yn ddigonol. Fe gollir rhai nyrsys wrth iddynt arbenigo mewn maes arbennig yn ogystal â'u colli drwy fiwrocratiaeth. Hyderir drwy newid y model a'r ffordd o weithio, y byddir yn lleihau'r gwaith papur i alluogi nyrsys i roi mwy o ofal i gleifion. Yn atodol, bod nyrsys yn dueddol i ffafrio swyddi mewn Ysbytai yn hytrach na nyrsio mewn cartrefi nyrsio. Cydnabuwyd bod darn o waith i'w gyflawni yn hyn o beth i weld sut y gellir codi proffil Nyrs Gofal Cartref.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

**(b) Cymeradwyo bod y gwaith yn datblygu ac i**

**(i) barhau i gydweithio gyda'r gwaith gofalwyr**
**(ii) Hyrwyddo a hysbysebu'r trefniadau Timau Amlasiantaethol (ANP)**
**(iii)Raglennu gwaith dilynol ar drefniadaeth Ysbyty Alltwen ynghyd a gyrfa yn y maes gofal yng Ngweithdy Blynyddol y Pwyllgor Craffu hwn sydd i'w gynnal ar 28 Ebrill 2016.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 12.45 o'r gloch

**CADEIRYDD.**

| | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| DYDDIAD Y CYFARFOD | 26 Mai 2016 |
| TEITL YR EITEM | Ymchwiliad Craffu Alltwen – Diweddariad |
| CADEIRYDD YR YMCHWILIAD | Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones |
| AELODAU'R YMCHWILIAD | Cynghorwyr<br>Selwyn Griffiths,<br>Siân Wyn Hughes,<br>Eryl Jones-Williams,<br>Peter Read<br>Ann Williams<br>Eirwyn Williams |
| SWYDDOG CRAFFU | Gareth James |

1 Yn dilyn sefydlu'r Ymchwiliad Craffu cynhaliwyd 2 gyfarfod o'r grŵp. Bwriad yr eitem yma yw rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu ar y gwaith a gyflawnwyd a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio.

2 Nod yr Ymchwiliad yw ateb y cwestiwn canlynol: '***A yw model gweithio integredig Cynllun Alltwen yn llwyddo i gyfarch gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014?***'

3 Bydd yr ymchwiliad yn chwilio am dystiolaeth i gyfarch y canlynol:

- Bod y ffordd newydd o weithio yn rhoi'r unigolyn sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog ac yn eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw.
- Bod y model yn galluogi Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i gydweithio'n fwy effeithiol.
- Bod y model yn galluogi Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i weithio'n fwy effeithlon.
- Dangos bod modd gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau trwy weithio yn y dull hwn.

4 <u>Cyfarfod 25 Chwefror 2016</u>

- Cafwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar Gynllun Eifionydd yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru
- Cytunwyd ar y Brîff.

5 <u>Cyfarfod 11 Ebrill 2016</u>

- Cyfwelwyd â'r swyddogion o'r Bwrdd Iechyd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd sy'n rhan o'r Cynllun

- Roedd y sylwadau yn bositif ar y cyfan, a'r prif negeseuon oedd bod angen ehangu'r cynllun i ardaloedd eraill a bod angen cynyddu'r gwasanaethau o safbwynt y Cyngor dros y penwythnos.

6 <u>Amserlen</u>

- Mae'r amserlen bresennol yn anelu i gyflwyno'r Adroddiad Terfynol yn ystod mis Mai/Mehefin 2016.
- Gwnaed peth cynnydd ar y gwaith, ond mae rhai elfennau'n llithro
- Nid oes Mesuryddion wedi'u dewis hyd yn hyn. Mae'r gwaith yma'n parhau.
- Yn y Brîff fe nodir dan Adran D – Casglu Tystiolaeth – '*Defnyddwyr Gwasanaeth – Bydd angen ystyried yn ofalus sut y gellid cael adborth defnyddwyr gwasanaeth oherwydd materion cyfrinachedd a diogelu data. Nodir y gellir casglu'r wybodaeth yma trwy'r swyddogion gweithredol sydd yn ymwneud â'r defnyddwyr gwasanaeth wyneb yn wyneb heb greu pryder ymysg defnyddwyr o gael eu holi ar gyfer 'ymchwiliad'*.'
- Yn ystod cyfarfod yr Ymchwiliad gyda'r swyddogion gweithredol ym mis Ebrill, daeth yn amlwg y bydd angen ystyried ymhellach sut orau i gael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

- **Mae'r aelodau'n dal i ystyried sut orau i gyflawni hyn yn ystyrlon, ac yn gofyn am estyniad i waith yr Ymchwiliad tan fis Medi 2016.**

<u>Atodiad</u>

Brîff yr Ymchwiliad

**YMCHWILIAD CRAFFU ALLTWEN**
Pwyllgor Craffu Gwasanaethau
Y BRÎFF

<table>
<tr><td>A</td><td><u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried fel eitem craffu</u>?<br><br>Mae aelodau'r Pwyllgor Craffu yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd cydweithio effeithiol rhwng Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd ac wedi amlygu barn gryf ynglyn a'r mater trwy eu argymhellion yn dilyn ymchwiliadau i drosglwyddo cleifion o'r ysbyty i'r cartref. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r cyfleon all godi o integreiddio gwasanaethau gofal ac iechyd er mwyn cynllunio a darparu gwell gwasanaethau i bobl Gwynedd mewn cyfnod heriol.<br><br>Yn ddiweddar, derbyniwyd cyflwyniadau gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant ar ei weledigaeth dros drawsnewid gwasanaethau oedolion y Cyngor ac yn benodol ei adroddiadau ar yr Adolygiad Dechrau i'r Diwedd Oedolion, y Prosiect Her Gofal a newidiadau yn y gwasanaethau galluogi. Nododd y Pwyllgor bod y model gweithio sydd yn cael ei ddatblygu ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ardal Eifionydd yn Ysbyty Alltwen, Tremadog, yn cael ei amlygu fel rhan allweddol a chreiddiol i holl waith trawsnewidiol yr Adran.<br><br>Mae y Pwyllgor o'r farn y byddai gwerth mewn cynnal ymchwiliad i'r manteision ac anfanteision a ganfuwyd o weithio integredig rhwng Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd yn Alltwen ac yn enwedig o ran darparu gwasanaethau llinell flaen ac hefyd ar effaith y dull newydd o weithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.</td></tr>
<tr><td>B</td><td><u>Nod yr Ymchwiliad</u><br><br>Y prif gwestiwn i'w gyfarch fydd ' A yw model gweithio integredig Cynllun Alltwen yn llwyddo i gyfarch gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014?'. Bwriedir gwneud hyn trwy ofyn y cwestiynau canlynol:<br><br>- A ellir tystiolaethu bod y ffordd newydd o weithio yn rhoi yr unigolyn sydd yn defnyddio gwasanaethau yn ganolog ac yn eu cynorthwyo i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno ei fyw?<br>- A ellir tystiolaethu bod y model yn galluogi Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i cydweithio yn fwy effeithiol?<br>- A ellir tystiolaethu bod y model yn galluogi Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i weithio yn fwy effeithlon?<br>- A ellir dangos bod modd gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau trwy weithio yn y dull hwn?</td></tr>
<tr><td>C</td><td><u>Cefndir</u><br><br>Ystyried y canlynol er mwyn ymgyfarwyddo â'r cyd-destyn a'r angen I newid y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu:<br><br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| CH | <u>Arfer Da a Gwersi i'w Dysgu</u><br><br>- Ystyried enghreifftiau o weithio mewn dull tebyg mewn ardaloedd eraill<br>- Ystyried pa rwystrau i gydweithio effeithiol y llwyddwyd i'w goresgyn oherwydd ymdrechion gwaith Alltwen. |
| D | <u>Casglu Tystiolaeth</u><br>- Arweinwyr – Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd<br>    o Cynghorydd Gareth Roberts – Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>    o Aled Davies – Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd<br>    o Morwena Edwards – Cyfarwyddwr Corfforaerthol, Cyngor Gwynedd<br>    o Ffion Johnstone – Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin) Bwrdd Iechyd<br>- Swyddogion Gweithredol<br>    o Gweithwyr Cymdeithasol<br>    o Therapyddion Galwedigaethol<br>    o Swyddogion Galluogi<br>    o Matron Ardal – Delia Roberts<br>    o Nyrsys Cymunedol<br>    o Staff Ward Morfa, Ysbyty Alltwen<br>- Trydydd Sector<br>    o Gofal a Thrwsio<br>    o Cynnal Gofalwyr<br>- Meddygon Teulu sydd yn rhan o'r cynllun<br>- Defnyddwyr y Gwasanaeth – Bydd angen ystyried yn ofalus sut y gellid cael adborth defnyddwyr gwasanaeth oherwydd materion cyfrinachedd a diogelu data. Nodir y gellir casglu y wybodaeth yma trwy y swyddogion gweithredol sydd yn ymwneud a'r defnyddwyr gwasanaeth wyneb yn wyneb heb greu pryder ymysg defnyddwyr o gael eu holi ar gyfer 'ymchwiliad'. |
| DD | <u>Dadansoddiad</u><br>- Ystyried y berthynas rhwng budd-ddeiliaid a phartneriaid yng nghyd-destun eu rolau a'u cyfrifoldebau<br>- Pwyso a mesur tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gyfwelwyd |
| E | <u>Llunio'r Adroddiad</u><br>- Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau<br>- Nodi argymhellion ar gyfer allbynnau tymor byr<br>- Nodi argymhellion ac allbynnau tymor hwy<br>- Trafod a chytuno'r Adroddiad drafft gyda arweinwyr y gwaith o fewn Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd<br>- Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol drafft i'r Pwyllgor Craffu am sylwadau a chadarnhad<br>- Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol |
| F | <u>Cynllun Gweithredu</u><br>- Annog Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i lunio Cynllun Gweithredu ar y cyd mewn ymateb i'r argymhellion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | - Gwahodd arweinwyr y gwaith o fewn Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i drafod y Cynllun ar y cyd gyda'r Craffwyr. | | |
| FF | Tracio Cynnydd<br>- Diweddariad ar y cyd gan Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd i alluogi y craffwyr i asesu cynnydd | | |
| G | AMSERLEN | | |
| | Beth | Arwain | Dyddiad |
| 1 | Cynllun Ffordd Gwynedd yn Alltwen<br>- Cefndir a chyd-destun<br>- Pwrpas a nod y Cynllun<br>- Mesuryddion<br>- Cytuno Brîff | Gareth Roberts<br>Aled Davies | Chwefror 2016 |
| 2 | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 | Aled Davies | Chwefror 2016 |
| 3 | Cyfweliadau<br>- Rhestr o Gyfwelai<br>- Cwestiynau<br>- Trefn Cyfweliadau<br>- Cofnodi | Gareth James<br>Bethan Adams | Ebrill 2016 |
| 4 | Arfer Da o Ardaloedd Eraill | Gareth James<br>Ann Roberts | Mawrth/Ebrill 2016 |
| 5 | Dadansoddiad ac Adroddiadau drafft | Gareth James | Mai 2016 |
| 6 | Adroddiad Terfynol | Gareth James | Mai/Mehefin 2016 |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| DYDDIAD | 26 Mai 2016 |
| TEITL | Ymchwilad Addysg Gymraeg |
| PWRPAS | Darparu adroddiad cynnydd ar y gweithrediadau |
| AWDUR | Y Cynghorydd Gareth Thomas<br>Y Pennaeth Addysg |

**CEFNDIR**

Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn asesu:

- sut y gweithredir Polisi Iaith yr Awdurdod ar lawr gwlad mewn ysgolion unigol,
- y graddau y mae'r ddarpariaeth yn gymorth i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.

Lluniwyd argymhellion ar gyfer gwella cysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth addysg Gymraeg o fewn y dalgylchoedd yn awr ac i'r dyfodol.

Yn dilyn derbyn yr adroddiad a'r argymhellion gan y Pwllygor Crafftu, trefnodd yr Adran Addysg i arbenigwr annibynnol gynnal astudiaeth i fynd ynglŷn â'r ail argymhelliad yn bennaf, ond bod y dasg o ddiffinio natur ieithyddol ysgolion uwchradd y sir yn ymgorffori hefyd elfen o'r argymhelliad cyntaf, sef beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog lle bo hynny ar waith - byddai canfyddiadau yr astudiaeth yma yn allweddol i weithredu nifer sylweddol o'r argymhellion eraill.

Trefnwyd y gwaith hwn ar gyfer diwedd tymor yr Hydref 2015, ond oherwydd amgylchiadau, nid oedd yn bosib i'r gwaith hwn ddigwydd o fewn yr amserlen wreiddiol. Mae trefniadau yn yr arfaeth i gwblhau'r gwaith hwn yn ystod tymor yr Hydref 2016.

Amlinellir isod y gwaith sydd eisoes wedi digwydd mewn ymateb i'r argymhellion, ynghyd â rhaglen waith ar gyfer 2016-17. Dylid nodi y bydd y materion isod a weithredwyd arnynt eisoes, yn parhau i fod yn weithredol yn 2016-17.

**GWEITHREDIAD A CHYNNYDD HYD YMA**

Mae'r Adran Addysg wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer cymorthyddion a staff atodol i hyrwyddo a deall gofynion y Siarter Iaith. Trwy gyfrwng y Siarter Iaith sicrheir fod pob haen o gymuned yr ysgol h.y. disgyblion, rhieni, llywodraethwyr, yn atebol/weithredol wrth hyrwyddo agwedd iach/cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Cynhwysir y disgyblion yn y trafodaethau am y Siarter Iaith ac arferion iaith a sicrheir bod cyfleoedd i ddisgyblion a rhieni ddeall a thrafod manteision dwyieithrwydd, amlieithrwydd gan arddel y Gymraeg. Mae llais y plentyn yn gryf yn y broses o hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg e.e. aelodau'r Cyngor Ysgol, yn gweithredu ar syniadau i ddylanwadu ar y gymuned ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg.

Anelir at newid agweddau / cynnal agweddau iach tuag at yr iaith gyda phob ysgol yn gyfrifol am gyflwyno pamffled a chyflwyniad sy'n trosglwyddo'r neges pa mor werthfawr ydy siarad Cymraeg a'r fantais sydd yna o fod yn ddwyieithog. Mae pob ysgol wedi derbyn pamffled, cyflwyniad ac

arweiniad ar sut i annerch rhieni ar fanteision addysgol, economaidd, diwylliannol sydd yna o fod yn hyfedr ddwyieithog.

Mae Cymunedau Dysgu Proffesiynol Siarter Iaith wedi'u ffurfio er mwyn cyd-weithio ar brosiectau i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Gymraeg yn ddalgylchol.

Cynhelir gweithgareddau sy'n rhoi ffocws ar godi proffil a gwerth y Gymraeg mewn ysgolion.

Mae hyfforddiant trylwyr wedi'i roi i'r Cyd-gysylltwyr Iaith Cynradd fel eu bod yn unigolion cymwys i gynnig arweiniad a chefnogaeth i'r ysgolion yn eu dalgylchoedd. O dan eu gofal, mae'r gwaith o fonitro'r Siarter yn cael ei weithredu.

Mae elfen gryf o hyfforddi yn dod yn sgil yr ymweliadau achredu a chyfle euraid i rannu gwybodaeth ac arferion da rhwng ysgolion a'i gilydd. Cwblheir adroddiad ar gyrhaeddiad a datblygiad pob ysgol yn erbyn gofynion y gwobrau arian ac aur yn flynyddol.

Ynghyd â CiO mae cyd-weithio clos rhwng partneriaethau fel yr Urdd, Cwmni Da ac S4C wedi'i sefydlu gyda'r bwriad o gryfhau'r gefnogaeth i'r ysgolion wrth ymgyrraedd at y nod o gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

Mae'r Canolfannau Iaith yn parhau i darparu cyrsiau dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith cyfredol. Mae'r Adran Addysg yn monitro'r defnydd o'r Canolfannau Iaith gan sicrhau fod yr ysgolion yn gwneud defnydd llawn ohonynt.

Datblygiad eithaf diweddar yw penodi Athrawes Ôl Ofal Canolfannau Iaith Cynradd Gwynedd sy'n gyfrifol am addysgu'r Gymraeg i grwpiau o hwyrddyfodiad gan ymwneud yn benodol â sicrhau gweithrediad y cynllun ôl-ofal i ddisgyblion sydd wedi mynychu'r Canolfannau Iaith. Mae hyn yn sicrhau dilyniant priodol i ddisgyblion wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgolion ac hefyd yn sicrhau atebolrwydd pob ysgol dros weithredu'r pecynnau ol-ofal.

Mae'r Awdurdod Addysg yn gweithredu Polisi Iaith dwyieithog yn yr ysgolion, a'i nod yw datblygu gallu'r unigolyn i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rhoddir pwyslais, hefyd, ar sicrhau dilyniant ieithyddol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall. Mae swydd y Cyd-gysylltydd Iaith Dalgylchol yn greiddiol i hyn. Mae'r Cyd-gysylltwyr Iaith yn cael eu rhyddhau am 10 diwrnod y flwyddyn i gefnogi ysgolion y dalgylch i weithredu'r Polisi Iaith. Drwy hyn mae trefn gadarn yn ei le o ran cydlynu'r dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd yn y dalgylch.

# CYNLLUN GWEITHREDU 2016-17

## ARGYMHELLION YMCHWIL ADDYSG GYMRAEG



| Cynllun Gweithredu 2016-17 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf.*** | ***Blaenoriaethau*** | ***Cynllun Gweithredu*** | ***Deilliant*** | ***Swyddog Cyfrifol*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Ffynhonnell gyllid*** | ***Monitro chwarterol*** |
| | Cryfhau a chysoni gweithrediad Polisi Iaith Cyngor Sir Gwynedd yn ysgolion y sir | Swyddogion Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd i weithio ar y cyd ag Ymgynghorydd Allanol i gyflawni'r Astudiaeth o ddiffinio natur ieithyddol ysgolion uwchradd a beth yn union a olygir wrth addysgu a dysgu dwyieithog<br><br>Archwilio dogfennaeth berthnasol gan Gyngor Sir Gwynedd a Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyfweld â staff yn yr ysgolion a rhoi sylw i unrhyw ddata a gwybodaeth gysylltiedig | Ffrwyth yr Astudiaeth yn cynhyrchu adroddiad yn cynnwys casgliadau ac argymhellion. | GaJ | Tymor yr Hydref 2016 | Canolog | |
| | Cynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n meithrin sgiliau hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg. | Ysgolion i blethu'r polisi i ddatblygu sgiliau dwyieithog hyfedr gyda gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. | Gweithrediad y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cyd-fynd â Pholisi Iaith (Addysg). | EVJ / IG / GaJ | Medi 2016 | Canolog | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sicrhau fod llywodraethwyr pob ysgol yng Ngwynedd yn derbyn hyfforddiant ar ofynion y Polisi Iaith. | Cynnwys y gofyn hwn yn rhaglen hyfforddiant llywodraethwyr yn 2016-17. | Pob llywodraethwyr wedi derbyn yr hyfforddiant priodol. | OO / OMB | Medi 2016 | Canolog | |
| | Gosod safon benodol i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog ar gyfer darpar athrawon fel rhan o'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC). | Cynnal trafodaethau gyda Phrifysgol Bangor. | Cyngor wedi trafod ac wedi dod i gytundeb efo Prifysgol Bangor. | AT/GaJ | Medi 2016 | Canolog | |